| 223 | I object to the planned increase in parking fees in all Cardigan Town car parks. The residential parking fees are extortionate and will mean many residents will be unable to pay. Also, those home owners who are trying to sell their homes will struggle to sell when potential buyers have to factor in a parking permit. Many outside villages travel to collect their prescriptions only or a loaf of bread/milk and £4 charge will be a further expense on stretched finances. Why can't the first hour of parking be FREE? Also, many new small businesses have started in our town and they rely on customers and visitors outside the area. The parking fees are going to negatively impact the number of people visiting which will affect the overall economy for our town. I look forward to hearing from you at your earliest convenience |
| 224 | I object to the planned increase in parking fees in all Cardigan Town car parks. The residential parking fees are extortionate and will mean many residents will be unable to pay. Also, those home owners who are trying to sell their homes will struggle to sell when potential buyers have to factor in a parking permit. Many outside villages travel to collect their prescriptions only or a loaf of bread/milk and £4 charge will be a further expense on stretched finances. Why can't the first hour of parking be FREE? Also, many new small businesses have started in our town and they rely on customers and visitors outside the area. The parking fees are going to negatively impact the number of people visiting which will affect the overall economy for our town. I look forward to hearing from you at your earliest convenience, |
| 225 | I object to the planned increase in parking fees in all Cardigan Town car parks. The residential parking fees are extortionate and will mean many residents will be unable to pay. Also, those home owners who are trying to sell their homes will struggle to sell when potential buyers have to factor in a parking permit. Many outside villages travel to collect their prescriptions only or a loaf of bread/milk and £4 charge will be a further expense on stretched finances. Why can't the first hour of parking be FREE? Also, many new small businesses have started in our town and they rely on customers and visitors outside the area. The parking fees are going to negatively impact the number of people visiting which will affect the overall economy for our town. I look forward to hearing from you at your earliest convenience, This situation is totally unacceptable! |
| 226 | I am writing to register my objection to the proposed price increases for off-road parking in Ceredigion. I am a sole trader who has established a new business this year, operating out of **************************. Since the *********** reopened following 2 years and 8 months of extensive refurbishment, footfall has been slow to return – there is very limited on-street parking in the town, and these proposed increases to the fees for off-street parking will provide yet another reason for local people to avoid the town centre. South Ceredigion is not blessed with brilliant public transport infrastructure, and people in the areas surrounding Cardigan are reliant on being able to drive and easily park in the town, just as those of us with businesses in the town are reliant on them being able to do so. There are many other small independent businesses like mine in the ***********, and the town as a whole, that have started up this year, and are desperately trying to establish themselves yet this proposal plays directly into the hands of Tesco, Aldi, B&M, plus the new Home Bargains and the small supermarket being built at Pendre. All of these have their own free car parking, so it is hard not to imagine people will use these large national multiples for all of their shopping requirements purely because of convenience. With Cardigan bucking the national trend by having a high street largely made up of independents, now is not the time for the council to hand over the advantage to the big boys. Plus, as someone who was lucky enough to benefit from a successful application for ************** funding this year in order to establish my business, I must say that all of this seems to fly square in the face of all of the stated outputs and outcomes that were sought from that fund, where enhancing communities, supporting small business growth and encouraging an environment for entrepreneurship seemed to be the mantra. In addition to the higher fees for parking (and these were only increased last year), I also feel that the limited tariff options available are not helpful – (options for 30 minutes and 1hr in particular would be useful for a lot of people who simply need to use a chemist, or any particular shop on their visit. I do hope these important points will be considered when arriving at a decision. |

**<u>Atodiad 4</u> – Cyfathrebu gan Theatr Mwldan i'w haelodau**

MWLDAN




**TALIADAU PARCIO YN ABERTEIFI – YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS NAWR AR AGOR**
DARLLENWCH YR ISOD A RHOWCH YMATEB I GYNGOR SIR CEREDIGION CYN 4YDD RHAGFYR

**PARKING CHARGES IN CARDIGAN – PUBLIC CONSULTATION NOW OPEN**
PLEASE READ BELOW AND RESPOND TO CYNGOR SIR CEREDIGION BEFORE 4TH DECEMBER

Neges ddwyieithog yw hon - gweler y fersiwn Saesneg isod.
**This is a bilingual message - scroll down for English**

*Annwyl cefnogwyr Mwldan*

Rydym yn gwybod o'n harolygon adborth yn dilyn digwyddiadau fod llawer ohonoch yn anhapus â'r taliadau parcio ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ceredigion ar y meysydd parcio y tu ôl i'r Mwldan, ac yn feysydd parcio eraill o amgylch Aberteifi. Er bod y taliadau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, rydym yn gwybod eu bod yn ychwanegu costau ychwanegol at eich ymweliad i'r Mwldan, yn enwedig os ydych yn mynychu digwyddiad byw neu ddangosiad ffilm ac yn treulio hyd at 3 neu 4 awr gyda ni, neu hyd yn oed os ydych yn galw heibio i gael coffi, cyfarfod ffrindiau neu i godi eich tocynnau. Mae llawer ohonoch wedi nodi mae taliadau parcio afresymol yw'r ataliad mwyaf rhag ymweld.

Ar adeg pan mae angen annog ein cwsmeriaid i ymweld mwy â ni oherwydd yr holl bwysau ariannol yr ydym yn ei brofi, rydym yn teimlo ei bod yn hen bryd adolygu taliadau parcio fforddiadwy gan Gyngor Sir Ceredigion, a dylai fod yn rhan o ddyletswydd y Cyngor i wneud yr hyn a allent i gefnogi ein cymuned leol ac ymwelwyr i'n tref drwy annog cefnogaeth i, a mynediad cyhoeddus i, fusnesau lleol gan gynnwys Mwldan.

Cawsom sioc o glywed yn gynharach eleni bod **Cyngor Sir Ceredigion wedi cyhoeddi toriad o 100% i’w gyllid celfyddydol**, yn effeithiol o’u cyllideb ar gyfer 2024/25. Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod Ceredigion yn torri eu cyllid i’r Mwldan o £14,000 i ddim. Ar adeg pan mae’r sector celfyddydau cyfan yng Nghymru dan bwysau ariannol difrifol oherwydd costau cynyddol, colli incwm busnes ar ôl y pandemig, a cholli cyllid, mae’r toriad cyllid penodol hwn o Geredigion yn ergyd drom i’n cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Yng ngolau hynny, mae’n amlwg bod angen i Geredigion wneud popeth o fewn eu gallu i annog mwy o bobl i fynychu’r Mwldan, a chefnogaeth i bob busnes lleol arall, a chredwn y byddai gostwng taliadau parcio i gwsmeriaid i lefelau rhesymol yn helpu i annog mwy o ddefnydd. a gwariant lleol.

Mae Ceredigion newydd gyhoeddi adolygiad arfaethedig i'w taliadau parcio drwy Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) 2025. Mae'r ddogfen hon bellach ar agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**Y taliadau parcio newydd arfaethedig ar gyfer meysydd parcio’r Mwldan a Bath House (8yb – 6yh), ac eraill yn Aberteifi yw:**
**Hyd at 2 awr = £4.00**
**Hyd at 4 awr = £5.00**
**Hyd at 24 awr = £7.00**

**Y taliadau presennol yw:**
**Hyd at 24 awr = £5.10 (tâl sengl)**

Nid yw dwy awr yn ddigon o amser i weld ffilm hyd arferol neu berfformiad byw yma. Felly bydd cwsmeriaid yn edrych ar **arbediad o ddim ond 10c** ar y taliadau presennol am arhosiad 4 awr. Bydd arhosiad o fwy na 4 awr yn costio £1.90 ychwanegol.

O ystyried yr ymateb cwsmeriaid a gawsom hyd yma, credwn y byddai tâl o £2 am hyd at 4 awr yn awgrym rhesymol fel cyfaddawd.

Croesewir ymatebion i Ymgynghoriad Cyhoeddus sydd bellach yn agored a dylid eu cyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion **cyn 4ydd Rhagfyr 2024.**

**Nawr yw eich cyfle i ddweud eich dweud a chefnogi busnesau lleol!**

Gwrthwynebiadau, gan nodi’r rhesymau yn ysgrifenedig,
at clic@ceredigion.gov.uk neu’r Gwasanaethau Cyfreithiol, trwy law Ystafell y Post, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu drwy'r ffurflen ar-lein, i'w cael erbyn 04/12/2024.

**Gwybodaeth Llawn & Dolen i'r Ffurflen Ar-Lein**

*Dear Mwldan supporters,*

We know from our post-event feedback surveys that many of you are unhappy with the parking charges currently levied by Cyngor Sir Ceredigion on the car parks to the rear of Mwldan, and indeed car parks elsewhere in Cardigan. Whilst the charges are beyond our control, we do know that they add additional costs to your visit to Mwldan, particularly if you are attending a live event or film screening and spending up to 3 or 4 hours with us, or indeed just popping in to have a coffee, meet friends or pick up tickets. Many of you have cited unreasonable parking charges as the biggest deterrent to visiting.

At a time when we need to encourage our customers to visit us more because of all the financial pressures we are experiencing, we feel that the reasonable revision of affordable parking charges by Cyngor Sir Ceredigion is now well overdue, and it should be part of the Council's duty to do what they can to support our local community and visitors to our town by encouraging support for, and public access to, local businesses including Mwldan.

We were shocked to learn earlier this year that **Cyngor Sir Ceredigion announced a 100% cut to their arts funding,** effective from their budget for 2024/25. In practice this means that Ceredigion are cutting their funding for Mwldan from £14,000 to zero. At a time when the whole arts sector in Wales is under serious financial pressure from increasing costs, loss of business income post-pandemic, and loss of funding, this particular funding cut from Ceredigion is a serious blow to our future financial sustainability.

In that light, we clearly need Ceredigion to do everything they can to encourage increased attendance at Mwldan, and support for all other local businesses, and we believe lowering parking charges for customers to reasonable levels would go a long way to help to encourage increased useage and local spend.

Ceredigion have just announced a proposed revision to their parking charges via a Ceredigion County Council (Off-Street Parking Places) Order 2025. This document is now open for public consultation.

**The proposed new parking charges for the Mwldan and Bath House car parks (8am – 6pm), and others in Aberteifi are:**
**Up to 2 hours = £4.00**
**Up to 4 hours = £5.00**
**Up to 24 hours = £7.00**

**The current charges are:**
**Up to 24 hours = £5.10 (single charge)**

Two hours is not enough time to see a standard-length film or live performance here. Therefore customers will be looking at a **saving of just 10p** on the current charges for a 4-hour stay. A stay of more than 4 hours will cost an extra £1.90.

Given the customer response we have received to date, we believe that a £2 charge for up to 4 hours would be a reasonable suggestion as a compromise. Responses to a Public Consultation now underway are welcomed and should be submitted to Cyngor Sir Ceredigion **before 4th December 2024**.

**Now is your chance to have your say and support local businesses!**

Objections, stating reasons in writing, via the Online Form in the link above, or to clic@ceredigion.gov.uk or Legal Services, c/o Post Room, Ceredigion County Council, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE or via the online form, to be received by 04/12/2024.

**Full Information & Link to the Online Form**

## Atodiad 5 – Ymatebion Ffurfiol i Ymgynghoriad Cyhoeddus

| | Categori |
|---|---|
| **1** | Gwrthwynebu ar y sail y bydd y taliadau yn cael effaith ar nifer yr ymwelwyr a hyfywedd busnesau / y stryd fawr a / neu dwristiaeth a / neu hyd arhosiad a / neu werth a / neu swm eu gwariant. |
| | Mae'r cynigion wedi ceisio cyflwyno opsiwn codi tâl 2 awr, 4 awr a 24 awr gyson ar draws portffolio Maes Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at y canlynol:<br>• cynnydd o 20c yn unig yn y rhan fwyaf o leoliadau arfordirol, a chynnydd o £1.10 yn Aberteifi am 2 awr o barcio;<br>• gostyngiad o 10c yn y rhan fwyaf o leoliadau arfordirol, a £1 yn Aberteifi am 4 awr o barcio (yn hytrach na 3 awr yn flaenorol);<br>• cynnydd o 40c yn y rhan fwyaf o leoliadau arfordirol, a £1.90 yn Aberteifi am 24 awr o barcio;<br>• cynnydd o rhwng 10c a 60c mewn lleoliadau mewndirol ar gyfer parcio am 2 awr;<br>• cynnydd o rhwng 0c a 40c mewn lleoliadau mewndirol ar gyfer parcio am 4 awr (yn hytrach na 3 awr yn flaenorol);<br>• gostyngiad o 10c neu ddim newid mewn lleoliadau mewndirol am 24 awr o barcio;<br><br>Sylwer – mae'r holl newidiadau uchod yn cynnwys yr atodiad 50c y cytunwyd arno gan y Cabinet er mwyn caniatáu parcio am ddim i ddeiliaid Bathodynnau Glas ym meysydd parcio Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Mae yna eisoes nifer sylweddol o lefydd parcio am ddim ar y stryd gyda chyfyngiad amser o wahanol gyfnodau yn ogystal â pharcio cyfyngedig am ddim ar y stryd ar gael ar sail y cyntaf i'r felin ym mhob tref / pentref a wasanaethir gan feysydd parcio. Mae parcio â chyfyngiad amser cyfyngedig ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y llefydd hyn i hwyluso parcio am gyfnodau byr. Er nad yw capasiti ar y stryd o bosibl yn cwrdd â lefel y galw am barcio am ddim a chydnabyddir yr awydd i barcio am ddim mewn meysydd parcio yn cael ei gydnabod, mae taliadau am barcio mewn meysydd parcio yn darparu mecanwaith ar gyfer rheoli'r galw am barcio ac yn cefnogi darpariaeth gyffredinol y Cyngor. Gan fod yn rhaid i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys, pe bai'r holl barcio am ddim, byddai angen naill ai cynyddu Treth y Cyngor o tua 4% neu dorri gwasanaethau er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. |
| **2** | Gwrthwynebu ar y sail bod costau ym meysydd parcio Mwldan a / neu Glôs y Bath yn rhy ddrud a bydd hyn yn effeithio ar Theatr Mwldan yn uniongyrchol, eu presenoldeb personol neu'r theatr ei hun neu ar eraill sy'n mynychu'r theatr. |
| | Ar hyn o bryd mae cyfres o haenau ffioedd yn weithredol mewn meysydd parcio Talu ac Arddangos ar draws Ceredigion nad ydynt yn berthnasol ym Maes Parcio'r Mwldan, ac mae'r newidiadau arfaethedig mewn gwirionedd yn cynnig gostyngiad yn y ffi sy'n daladwy i gwsmeriaid Mwldan sydd eisiau parcio am hyd at 4 awr i wneud defnydd o'r cyfleuster. Mae taliadau i barcio ym Maes Parcio Mwldan yn weithredol rhwng 8am a 6am ac nid oes bwriad o dan y cynigion hyn i ymestyn yr oriau codi tâl. Ar y sail hon mae parcio am ddim eisoes ar gael ym Maes Parcio'r Mwldan. Byddai'r Cyngor yn barod i gynnal trafodaethau gyda Theatr y Mwldan os ydynt yn dymuno ystyried trefniant lle byddent yn sybsideiddio'r gost o barcio i'w cwsmeriaid yn debyg i'r trefniant sydd gan y Cyngor mewn perthynas â Maes Parcio Stryd y Farchnad yn Llanbedr Pont Steffan. |
| **3** | Gwrthwynebu yn gyffredinol ar y sail bod y taliadau a gynigiwyd yn rhy uchel a / neu fod yr isafswm tâl am 2 awr yn rhy ddrud. |
| | Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys ac mae'r cynigion a nodir yn rhan o baratoi cyllideb gytbwys. Os na fydd y cynigion a nodir yn cael eu datblygu, yna bydd angen naill ai cynnydd ychwanegol yn y Dreth Gyngor neu ostyngiadau pellach mewn |

| | |
|---|---|
| | lefelau gwasanaeth i gyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r cynigion yn caniatáu cynnydd o 60c neu lai yn y mwyafrif o feysydd parcio, sy'n cynnwys ychwanegiad o 50c i ganiatáu parcio am ddim i ddeiliaid Bathodyn Glas ym meysydd parcio Cyngor Sir Ceredigion. |
| **4** | Gwrthwynebu ar y sail eu bod yn teimlo y dylid codi uchafswm tâl o £2 am 4 awr, neu £2 am 3 awr. |
| | Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys ac mae'r cynigion a nodir yn rhan o baratoi cyllideb gytbwys. Byddai gosod y taliadau ar £2 am 4 awr neu £2 am 3 awr yn arwain a diffyg yn y gyllideb o tua £1m, a fyddai'n golygu naill ai cynyddu Treth y Cyngor o tua 2-3% neu ostyngiadau pellach mewn lefelau gwasanaethau er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. |
| **5** | Gwrthwynebu ar y sail bod parcio yn Sir Gaerfyrddin neu Sir Benfro neu'n fwy cyffredinol bod parcio mewn siroedd eraill yn rhatach nag yng Ngheredigion. |
| | Er y cydnabyddir bod rhai ffioedd parcio mewn rhai awdurdodau cyfagos yn llai na'r cynigion a nodir ar hyn o bryd, nid yw hyn yn wir am bob un ohonynt e.e. Mae gan Gyngor Gwynedd strwythur ffioedd sy'n cynnwys taliadau hyd at £11 am barcio am 24 awr, a bydd pob Awdurdod Lleol yn pennu eu ffioedd a'u taliadau eu hunain yn unol ag ystyriaethau lleol a phenderfyniadau cyllidebol / ariannu. Hefyd, nid oes unrhyw fanylion na chadarnhad o ran bwriadau Cynghorau cyfagos mewn perthynas â'u ffioedd a'u taliadau wrth symud ymlaen, ac mae hyn, yn cyd-fynd â'r ffaith y byddai taliadau maes parcio yn aros heb newid tan o leiaf Ebrill 2027, yn golygu nad yw'n bosibl cymharu taliadau tebyg ar sail debyg. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys atodiad 50c i ganiatáu parcio am ddim i ddeiliaid Bathodyn Glas ym meysydd parcio Cyngor Sir Ceredigion, nad yw ar gael yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. |
| **6** | Gwrthwynebu ar y sail y dylai fod opsiwn am 2 awr, 1 awr neu 30 munud o barcio am ddim mewn meysydd parcio. |
| | Mae yna eisoes barcio am ddim ar y stryd gyda chyfyngiad amser o wahanol gyfnodau rhwng 30 munud a 2 awr ar sail y cyntaf i'r felin, yn ogystal â pharcio am ddim ar y stryd heb gyfyngiadau ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio â chyfyngiad amser ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y lleoedd hyn i hwyluso parcio am gyfnodau byr. Er efallai na fydd capasiti ar y stryd yn bodloni lefel y galw am barcio am ddim a bod yr awydd i barcio am ddim mewn meysydd parcio yn cael ei gydnabod, mae taliadau am barcio mewn meysydd parcio yn darparu mecanwaith ar gyfer rheoli'r galw am barcio. |
| **7** | Gwrthwynebiad i'r taliadau arfaethedig ar y sail y bydd yn annog pobl i barcio naill ai'n anghyfreithlon, mewn ardaloedd preswyl neu'n benodol ym Maes Parcio Canolfan Iechyd Aberteifi er mwyn osgoi'r taliadau. |
| | Mae'r cyfrifoldeb yn parhau i fod ar y gyrrwr i barcio'n gyfreithlon ac yn briodol yn unol â'r cyfyngiadau parcio sydd ar waith. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â chyfyngiadau a bydd yn parhau i wneud hynny i sicrhau nad yw'r arferion hyn yn cael eu hannog. Mae'r cynigion yn cynnwys Tocynnau Tymor rhatach i annog y rhai sydd â gofynion parcio rheolaidd a pharhaus i ddefnyddio meysydd parcio. |
| **8** | Gwrthwynebu ar y sail y dylai fod opsiwn parcio 3 awr ar gyfer Maes Parcio Mwldan gan nad yw 2 awr yn ddigon o amser i weld ffilm a / neu yn syml dyw 2 awr ddim yn ddigon o amser i fynychu perfformiad ym Mwldan a siopa yn y dref. |
| | Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys opsiwn tariff 4 awr a 24 awr ym Maes Parcio Mwldan i'r rhai sy'n dymuno parcio am fwy na 2 awr. Yn ogystal, yn y cynigion, bydd Maes Parcio Sgwâr Maes Glas, sydd 100m o Theatr Mwldan, hefyd yn darparu opsiwn tariff 3 awr i'r rhai sydd eisiau mwy na 2 awr ond llai na 4 awr o barcio. |

| | |
|---|---|
| **9** | Gwrthwynebu ar y sail y dylai pob parcio fod yn rhad ac am ddim. |
| | Mae yna eisoes barcio am ddim ar y stryd am gyfnod cyfyngedig o amser am gyfnodau amrywiol yn ogystal â pharcio am ddim ar y stryd heb gyfyngiadau ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio â chyfyngiad amser ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y lleoedd hyn i hwyluso parcio am gyfnodau byr. Er ei bod yn bosibl na fydd capasiti ar y stryd yn bodloni lefel y galw am barcio am ddim a bod yr awydd i barcio am ddim mewn meysydd parcio yn cael ei gydnabod, mae taliadau am barcio mewn meysydd parcio yn darparu mecanwaith ar gyfer rheoli'r galw am barcio ac yn cefnogi darpariaeth gyffredinol Gwasanaethau'r Cyngor. Gan fod yn rhaid i'r Cyngor baratoi cyllideb fantoledig, petai'r holl barcio am ddim, byddai angen naill ai cynyddu Treth y Cyngor o tua 4% neu dorri gwasanaethau er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. |
| **10** | Gwrthwynebu ar y sail eu bod o'r farn bod taliadau o £7 y dydd llawer rhy ddrud i bobl sy'n gweithio neu berchnogion busnes mewn trefi. |
| | Mae'r cynigion yn cynnwys opsiynau i brynu Tocynnau Tymor am gyfradd sylweddol is, sy'n cyfateb i gost parcio cyn lleied ag 81c y dydd (yn seiliedig ar barcio 7 diwrnod yr wythnos) neu £1.14 y dydd (yn seiliedig ar barcio 5 diwrnod yr wythnos). Mae cost Tocyn Tymor yn cyfateb i gost parcio o £5.65 yr wythnos ac felly mae unrhyw un sy'n dymuno gweithio neu ymweld â Maes Parcio am fwy na 4 awr ar amlder cyn lleied ag 1 diwrnod yr wythnos yn aml ac am hyd at 2 neu 4 o oriau o ymweliadau ar amlder o gyn lleied ag 2 ymweliad yr wythnos, yn arwain at arbediad cost trwy brynu Tocyn Tymor. Wrth i gost Tocynnau Tymor yn y cynigion leihau o gymharu â phrisiau cyfredol, mewn gwirionedd bydd gweithwyr a pherchnogion busnes sy'n manteisio ar yr opsiwn hwn yn gweld gostyngiad yn y gost parcio. |
| **11** | Gwrthwynebu ar y sail bod y tâl am 4 awr ym Maes Parcio Mwldan ond yn arbed 10c ar yr opsiwn presennol o barcio 24 awr ac y bydd arhosiad o dros 4 awr yn costio £1.90 yn fwy na'r tâl presennol. |
| | Ar hyn o bryd mae cyfres o haenau o ffioedd yn weithredol ym meysydd parcio Talu ac Arddangos ledled Ceredigion ac er y bydd hwy haen o dan y cynnig hwn, bydd yn rhesymoli'r strwythur ffioedd presennol ac yn symud yn agosach at fodel lle mae taliadau am barcio yn fwy cyson ac wedi'u halinio'n well o ran ffactorau gan gynnwys lleoliad, atyniadau fyddai'n denu a'r galw am barcio. Ar hyn o bryd, yr unig opsiwn ym Maes Parcio Mwldan yw £5.10 am 24 awr (a fyddai hefyd yn debygol o gael ei gynyddu yn ystod y broses o bennu'r gyllideb sydd ar ddod). Bydd y cynigion yn darparu opsiynau mwy hyblyg ar gyfer parcio, sef yr hyn y gofynnwyd amdano gan ddefnyddwyr. |
| **12** | Ar y sail eu bod o'r farn bod y Cyngor yn 'farus'. |
| | Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys ac mae'r cynigion a nodir yn rhan o baratoi cyllideb gytbwys. Os na fydd y cynigion a nodir yn cael eu datblygu, yna bydd angen naill naill ai cynyddu Treth y Cyngor o tua 4% neu dorri gwasanaethau er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys ychwanegiad o 50c i bob tariff i ganiatáu parcio am ddim i ddeiliaid Bathodyn Glas ym meysydd parcio Cyngor Sir Ceredigion. |
| **13** | Gwrthwynebu ar y sail y dylai parcio fod yn rhad ac am ddim, neu y dylid defnyddio ffioedd is ym Maes Parcio Mwldan, gyda'r nos. |
| | Ar hyn o bryd mae taliadau i barcio ym Maes Parcio Mwldan yn weithredol rhwng 8am a 6pm ac nid oes bwriad o dan y cynigion hyn i ymestyn yr oriau codi tâl. Ar y sail hon mae parcio am ddim eisoes ar gael ym Maes Parcio Mwldan. Ar hyn o bryd mae rhai meysydd parcio tymhorol yn codi tâl rhwng 8am a 10pm ac o dan y cynigion hyn bydd pob maes parcio yn codi tâl o 8am tan 6pm a fydd yn darparu gwell cyfleoedd parcio am ddim gyda'r nos mewn meysydd parcio yn gweld gostyngiad yn yr oriau codi tâl. |
| **14** | Gwrthwynebu ar y sail y dylai fod opsiwn i godi tâl am 30 munud neu 1 awr. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r cynigion a nodir yn ceisio rhesymoli nifer y tariffau sydd ar gael mewn meysydd parcio i'w gwneud yn symlach yn ogystal â cheisio annog pob i aros yn hirach. Mae yna eisoes barcio am ddim ar y stryd gyda chyfyngiad amser o wahanol gyfnodau rhwng 30 munud a 2 awr ar sail y cyntaf i'r felin, yn ogystal â pharcio am ddim ar y stryd heb gyfyngiadau ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio â chyfyngiad amser ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y llefydd hyn i hwyluso parcio am gyfnodau byr. |
| **15** | Gwrthwynebu i feysydd parcio tymhorol yng Nghei Newydd yn codi tâl drwy gydol y flwyddyn oherwydd effaith ar fusnes yn ystod tymhorau llai prysur. |
| | Mae parcio am ddim ar y stryd o wahanol gyfnodau yng Nghei Newydd eisoes yn gyfyngedig, yn ogystal â bod parcio am ddim ar y stryd heb gyfyngiadau ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio cyfyngedig ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y mannau hyn i hwyluso parcio am gyfnod byr er budd busnesau. Er nad yw capasiti ar y stryd o bosibl yn cwrdd â lefel y galw am barcio am ddim a chydnabyddir yr awydd am barcio am ddim mewn meysydd parcio, mae taliadau am barcio mewn meysydd parcio yn darparu mecanwaith ar gyfer rheoli'r galw am barcio. |
| **16** | Gwrthwynebu i feysydd parcio tymhorol yng Nghei Newydd yn codi tâl drwy gydol y flwyddyn oherwydd effaith ar y rhai sy'n mynd i feddygfa a / neu fferyllfa'r Doctor. |
| | Mae parcio am ddim ar y stryd eisoes ar sail y cyntaf i'r felin, yn ogystal â bod parcio am ddim ar y stryd heb ofyniad ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio cyfyngedig ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y mannau hyn i hwyluso parcio am gyfnod byr. Yn ogystal, mae'r Cyngor eisoes yn darparu 5 man parcio tymor byr am ddim ym Maes Parcio Heol yr Eglwys i'w defnyddio gan gleifion meddygfa'r Meddyg yng Nghei Newydd. |
| **17** | Gwrthwynebu i Bendre yn newid i Faes Parcio Arhosiad Byr ar y sail eu bod am i berchnogion busnes ddychwelyd i allu dyrannu / caniatáu lleoedd i warantu mannau parcio iddynt gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes ac er hwylustod. |
| | Ystyrir nad oes digon o gapasiti ym Maes Parcio Pendre i ddarparu ar gyfer parcio i ddeiliaid trwyddedau ac opsiynau parcio arhosiad byr, gyda dim ond 23 o lefydd ar gael, ac felly y penderfyniad yw a ddylid cadw Pendre fel maes parcio trwydded yn unig, neu gyflwyno opsiynau parcio arhosiad byr – gellid prynu tocynnau tymor a fyddai'n caniatáu i berchnogion busnesau barcio ym meysydd parcio Mwldan, Baddondy a Chae'r Ffair am gost o £295 y flwyddyn fel opsiynau amgen ar gyfer parcio yng nghyffiniau Pendre. |
| **18** | Gwrthwynebu ar y sail bod preswylwyr eisoes yn talu Treth y Cyngor ac y dylai talwyr Treth y Cyngor gael parcio am ddim. |
| | Mae Treth y Cyngor yn cyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ac mae Meysydd Parcio yn ddarpariaeth ddewisol. Defnyddir unrhyw incwm dros ben sy'n deillio o daliadau Parcio Ceir i gydbwyso cyllideb gyffredinol y Cyngor a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n gysylltiedig ag Addysg, Gofal Cymdeithasol, Cynnal a Chadw Priffyrdd, a Chasglu Gwastraff. Pe bai pob trethdalwr yn derbyn parcio am ddim, a thrwy hynny leihau incwm o'r meysydd parcio, byddai hyn yn golygu naill ai cynyddu Treth y Cyngor o tua 4% neu dorri gwasanaethau er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. Er bod yr awydd am barcio am ddim yn cael ei gydnabod, mae taliadau parcio mewn meysydd parcio yn chwarae rhan wrth reoli'r galw a throsiant y mannau sydd ar gael. Heb daliadau, mae'n debygol y bydd llai o drosiant o ofodau gyda rhai cerbydau'n meddiannu lleoedd am gyfnodau estynedig a thrwy hynny gyfyngu ar argaeledd i eraill sy'n dymuno defnyddio'r meysydd parcio gan greu diffyg budd cyffredinol mewn perthynas â nifer yr ymwelwyr mewn trefi. |

| | |
|---|---|
| **19** | Gwrthwynebu ar y sail bod y taliadau Tocynnau Tymor arfaethedig yn rhy uchel i'r rhai ar incwm isel a / neu fod y ffi weinyddol a'r gofyniad cyfredol i dalu 3 mis ymlaen llaw yn waharddedig. |
| | O dan y cynigion hyn, bydd cost y rhan fwyaf o docynnau tymor yn lleihau'n sylweddol (hyd at 49% yn achos y cynnig sirol ar hyn o bryd) gyda chost parcio cyn lleied ag 81c y dydd (yn seiliedig ar barcio 7 diwrnod yr wythnos) neu £1.14 y dydd (yn seiliedig ar barcio 5 diwrnod yr wythnos). Dros y blynyddoedd diwethaf mae cyfleuster i'w dalu drwy ddebyd uniongyrchol wedi'i ddarparu fel opsiwn ar gyfer Tocynnau Tymor am gyfnod hirach (9 a 12 mis) o helpu lledaenu'r gost. Mae'r gofyniad i dalu am 3 mis ymlaen llaw i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n methu â gwneud trefniadau tebyg uniongyrchol neu'r rhai sy'n methu â chwblhau'r mandadau debyd uniongyrchol angenrheidiol ac, er y cydnabyddir y gallai hyn fod yn rhwystr i rai unigolion, o dan y cynigion hyn. Bydd cost y rhan fwyaf o docynnau tymor yn gostwng yn sylweddol a fydd o ganlyniad yn lleihau swm y taliad ymlaen llaw y bydd angen ei wneud i sicrhau tocyn tymor ar drefniant debyd uniongyrchol. Codir ffi weinyddol o £10 ar gais am docynnau tymor i dalu am y gwaith gweinyddol ychwanegol yn unol â phenderfyniad y Cabinet yn 2016 ar weithredu taliad debyd uniongyrchol. Gallai'r Cabinet benderfynu hepgor / dileu'r tâl gweinyddol o £10 os ydynt yn bwriadu gwneud hynny, gan fod y ffi hon y tu allan i'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. |
| **20** | Gwrthwynebu i godi tâl ym Maes Parcio Cei Newydd drwy gydol y flwyddyn ar y sail y bydd y meysydd parcio yn dawel dros gyfnod y gaeaf ac felly byddai cost monitro a gorfodi taliad yn gorbwyso'r incwm a dderbyniwyd. |
| | Mae'r Cyngor eisoes yn monitro cyfyngiadau parcio ar y stryd yng Nghei Newydd yn ystod y gaeaf ac felly bydd monitro maes parcio yn cael ei ymgorffori yn y gweithgareddau monitro presennol hyn. Byddai hyd yn oed llai o nawdd ac felly bydd talu am barcio rhwng Tachwedd a Mawrth yn lleihau'r gofyniad i gynyddu taliadau yn ystod yr Haf i dalu am golled o incwm y gellid ei gynhyrchu. |
| **21** | Gwrthwynebiad i unrhyw ffioedd neu ofynion tocynnau tymor ar gyfer Maes Parcio Rhes Gloster / Llew Coch ar y sail eu bod yn teimlo y dylai preswylwyr gael parcio am ddim yn y maes parcio naill ai'n gyffredinol a / neu oherwydd llifogydd llanw sy'n effeithio ar y briffordd y tu allan i'w cartref a bod ceir yn fwy diogel yn y maes parcio. |
| | Er y derbynnir bod llifogydd weithiau'n effeithio ar faes parcio Rhes Gloster / Llew Coch yn y cyffiniau, mae hyn fel arfer ond yn digwydd pan fydd tywydd eithafol yn effeithio ar y llanw. Nid oes gan berchnogion eiddo yr hawl i barcio ar y briffordd gyhoeddus y tu allan i'w heiddo, a chyfrifoldeb perchennog y cerbyd yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o pan fydd achos o lanw uchel. Argymhellir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a Chabinet Cyngor Sir Ceredigion y dylai'r maes parcio aros fel maes parcio talu ac arddangos arhosiad byr, yn y ffioedd a nodir ar gyfer meysydd parcio eraill yn Aberteifi. |
| **22** | Gwrthwynebu i gael dau fand o daliadau, 'arfordirol' a 'mewndirol' ac yn teimlo y dylai fod un strwythur o daliadau ar draws pob Maes Parcio Talu ac Arddangos. |
| | Ar hyn o bryd mae cyfres o haenau ffioedd yn gweithredu ym meysydd parcio Talu ac Arddangos ledled Ceredigion ac er y bydd dwy haen o dan y cynnig hwn, bydd yn rhesymoli'r strwythur ffioedd presennol ac yn symud yn agosach at fodel lle mae taliadau am barcio yn fwy cyson ac wedi'u halinio'n well o ran ffactorau gan gynnwys lleoliad, atyniadau a'r galw am barcio. |
| **23** | Gwrthwynebu ar y sail eu bod yn teimlo bod symleiddio a rhesymoli taliadau ar draws y Sir o fudd i'r Cyngor ac nid y defnyddiwr. |

| | |
|---|---|
| | Mae symleiddio taliadau ar draws y Sir o fudd i ddefnyddwyr. Bydd yn darparu buddion gan gynnwys:<br>a. trefn codi tâl symlach, hawdd eu deall;<br>b. Bydd yn gwneud peiriannau talu ac arddangos yn haws i'w gweithredu gan y bydd uchafswm o 4 tariff yn gweithredu yn y peiriant o'i gymharu â hyd at 9 tariff, gyda rhai ohonynt gyda'r gofyniad am fotymau ychwanegol er mwyn eu defnyddio;<br>c. Bydd yn arwain at yr un tâl am barcio ar gyfer pob math o gerbyd a ganiateir ym mhob maes parcio;<br>d. Bydd Tocynnau Tymor nid yn unig yn rhatach yn y mwyafrif o achosion nag y maent ar hyn o bryd ond byddant hefyd yn caniatáu parcio yn y rhan fwyaf o Feysydd Parcio Arhosiad Hir ar draws y Sir yn hytrach na bod yn faes parcio penodol a fydd yn rhoi mwy o werth am arian a hyblygrwydd;<br>e. Bydd yn darparu opsiynau tariff ychwanegol mewn rhai meysydd parcio sydd ar hyn o bryd ond yn cynnig opsiwn i dalu am 24 awr gan roi mwy o hyblygrwydd i ddefnyddwyr ddewis pa mor hir y maent am brynu tocyn ar ei gyfer;<br>f. Bydd newid yr oriau codi tâl mewn meysydd parcio tymhorol o 8am - 10pm i 8am - 6pm i gyd-fynd â meysydd parcio eraill yn darparu gwell cyfleoedd parcio am ddim gyda'r nos yn y meysydd parcio hyn a bydd hefyd o fudd i breswylwyr sy'n dymuno defnyddio'r meysydd parcio ar gyfer parcio dros nos. |
| **24** | Gwrthwynebu ar y sail bod y tâl lleiaf ar y Band Mewndirol o £3 am 2 awr yn effeithio'n andwyol ar y rhai sydd angen defnyddio meysydd parcio yn Llandysul ar gyfer ymweliadau byr. |
| | Mae eisoes parcio am ddim ar y stryd am amser cyfyngedig amrywiol rhwng 30 munud a 2 awr ar sail y cyntaf i'r felin, yn ogystal â bod parcio am ddim ar y stryd heb gyfyngiad ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Mae parcio cyfyngedig ar y stryd yn cael ei fonitro a'i weithredu i annog trosiant y llefydd hyn i hwyluso parcio am gyfnod byr. Er bod y tâl arfaethedig ar gyfer y band mewndirol yn uwch na'r ffioedd cyfredol, o dan y cynigion hyn, byddai'r ffioedd a'r taliadau hyn yn aros yn sefydlog tan o leiaf Ebrill 2027. Ar hyn o bryd mae ffioedd a thaliadau yn cynyddu bob blwyddyn ac, ar y sail hon, rhagwelir pe bai graddfa bresennol y ffioedd a'r taliadau'n cael eu cynnal, y byddai cost gyffredinol parcio yn debygol o fod yn uwch na'r ffioedd arfaethedig ar hyn o bryd ar y rhan fwyaf os nad pob band tariff cyn Ebrill 2027 ac felly byddai'r model hwn yn debygol o arwain at barcio'n rhatach yn y tymor hir. Er enghraifft, bydd y tâl am barcio 24 awr yn parhau gan ei fod ar hyn o bryd yn £5 o dan y cynnig ac felly ni fyddai'n gweld unrhyw gynnydd tan o leiaf Ebrill 2027. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored i drafodaethau pe bai sefydliad arall yn dymuno ystyried trefniant ar gyfer sybsideiddio'r cost o barcio yn y maes parcio neu os ydynt yn cymryd rheolaeth o'r maes parcio. |
| **25** | Gwrthwynebu i'r taliadau ar y sail bod y maes parcio yn Llandysul yn gyfleus ar gyfer mynd â phlant i'r maes chwarae ac i ymarfer chwaraeon sy'n fuddiol i'w hiechyd a'u lles ac y byddant yn cosbi'r rhai sydd â phlant yn Llandysul sy'n byw i ffwrdd o ganol y dref. |
| | Er y cydnabyddir bod y maes parcio yn gyfleus i'r cyfleusterau hyn ac mae'n darparu ar gyfer lleoliad parcio cyfleus iddo, mae parcio cyfyngedig am ddim ar y stryd ar gael ar sail y cyntaf i'r felin i bobl sy'n dymuno parcio i gael mynediad i'r cyfleusterau hyn nad ydynt yn dymuno talu am barcio. Mae parcio cyfyngedig ar y stryd yn cael ei fonitro a'i orfodi i annog trosiant y llefydd hyn i hwyluso parcio am gyfnod byr. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored i drafodaethau pe bai sefydliad arall yn dymuno ystyried trefniant ar gyfer sybsideiddio'r cost o barcio yn y maes parcio neu os ydynt yn cymryd rheolaeth o'r maes parcio. |
| **26** | Gwrthwynebu ar y sail bod yr incwm a gynhyrchir eisoes yn ddigon. |

| | |
|---|---|
| | Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyllideb gytbwys ac mae'r cynigion a nodir yn rhan o baratoi cyllideb gytbwys. Os na fydd y cynigion a nodir yn cael eu datblygu, yna bydd naill ai rhaid cynyddu Treth y Cyngor neu dorri gwasanaethau ymhellach er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. |
| **27** | Gwrthwynebu i'r gofyniad i'r rhai sy'n defnyddio pwyntiau gwefru cerbydau trydan i dalu am barcio yn ogystal â'r gost o wefru'r cerbyd oherwydd gall gwefru fod yn araf a bydd yn annog pobl i beidio stopio i wefru'u cerbyd. |
| | Mae cyfleusterau gwefru ar gyfer cerbydau trydan mewn meysydd parcio yn gost ychwanegol am gyfleuster a reolir ac a weithredir gan drydydd parti. Bydd hyd yr amser y bydd cerbyd yn ei gymryd i wefru yn dibynnu ar wahanol ffactorau, gan gynnwys lefel gwefr y cerbyd a'r math o wefrydd y gall y cyflenwad ei ddarparu, a bydd gyrwyr cerbydau trydan yn penderfynu ble i wefru eu cerbyd yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol eu hunain. Pwrpas codi tâl am barcio a gwefru yw creu model cynaliadwy sy'n caniatáu ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn ehangu a gwella'r rhwydwaith o orsafoedd gwefru, gan sicrhau eu bod yn parhau'n weithredol ac ar gael, wrth gynnal incwm o weithgareddau sy'n ymwneud â pharcio, bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig fel y mae nifer y cerbydau trydan yn cynyddu gyda'r symudiad tuag at sero net. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â'r dull a ddefnyddir gan gynghorau cyfagos. |
| **28** | Gwrthwynebu i godi tâl o gwbl yn Llandysul ar y sail eu bod yn teimlo nad yw'r Cyngor wedi astudio effaith ailgyflwyno tâl am barcio ar fusnesau a'r gymuned ehangach. |
| | Roedd gwaharddiad dros dro ar daliadau ym Maes Parcio Rhes y Porth yn Llandysul ar waith yn ystod ac yn syth ar ôl COVID. Cyn i'r gwaharddiad taliadau parcio ddod i ben, darparwyd cyfleoedd i'r gymuned gyflwyno tystiolaeth i gefnogi parhad yr ataliad a'r sefyllfa lle rhoddwyd parcio am ddim i Landysul lle nad oedd lleoliad arall, fodd bynnag, nid oedd hyn ar ddod er gwaethaf nifer o nodiadau atgoffa. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored i drafodaethau pe bai sefydliad arall yn dymuno ystyried trefniant ar gyfer sybsideiddio'r cost o barcio yn y maes parcio neu os ydynt yn dymuno cymryd rheolaeth uniongyrchol o'r maes parcio. |
| **29** | Gwrthwynebu ar y sail bod y taliadau yn Aberteifi yn ddrutach nag Aberystwyth ac Aberaeron. |
| | Mae'r gwrthwynebiad hwn yn ffeithiol anghywir. O dan y cynigion, bydd taliadau mewn meysydd parcio yn Aberteifi, Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yr un fath gan y byddan nhw i gyd yn dod o dan y band arfordirol. |
| **30** | Gwrthwynebu ar y sail y byddai talu unrhyw beth mwy na £3 i dalu i fynd â'u mam sydd â bathodyn glas i fynd i Theatr Mwldan yn effeithio ar eu presenoldeb ac felly iechyd meddwl ei mam. |
| | O dan y cynigion, byddai cerbyd sy'n cludo deiliad y Bathodyn Glas ac arddangos y Bathodyn Glas wedi'i eithrio o'r taliadau ac felly yn y senario hwn ni fyddai cost i'r unigolyn hwn am barcio ym Maes Parcio Mwldan. |
| **31** | Ar y sail y dylai tocynnau i Theatr Mwldan gynnwys parcio am ddim a / neu dylai rhoi hawl i bobl barcio am bris gostyngedig. |
| | Nid yw'n cael ei ystyried yn briodol nac yn deg i'r trethdalwr sybsideiddio'r cost parcio i gwsmeriaid un busnes neu gyfleuster preifat penodol. Byddai'r Cyngor yn barod i gynnal trafodaethau gyda Theatr y Mwldan os ydynt yn dymuno ystyried trefniant lle byddent yn sybsideiddio'r gost o barcio i'w cwsmeriaid yn debyg i'r trefniant sydd gan y Cyngor mewn perthynas â Maes Parcio Stryd y Farchnad yn Llanbedr Pont Steffan. |
| **32** | Gwrthwynebu ar y sail y bydd y taliadau'n effeithio ar allu perchnogion tai heb barcio preifat i werthu eu heiddo. |

| | |
|---|---|
| | Byddai mynediad i barcio yn un o sawl ystyriaeth yn unig i ddarpar brynwyr gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bris yr eiddo, ei leoliad, ei faint, agosatrwydd at gyfleusterau, a oes ganddo ofod allanol a'r math ac ansawdd y ddarpariaeth addysg a roddir. Mae'r cynigion yn cynnwys yr opsiwn ar gyfer prynu Tocynnau Tymor ar gost o £295 am 12 mis sy'n cyfateb i gost o barcio cyn lleied â 81c y dydd sy'n cael ei ystyried yn rhesymol, a byddai hyn yn agored i unrhyw ddarpar brynwyr tai. |
| **33** | Gwrthwynebu i godi tâl drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd parcio tymhorol ar y sail nad oes ganddynt lawer o ddefnydd rhwng Tachwedd a Mawrth. |
| | Nid yw'n eglur beth yw'r sail ar gyfer y gwrthwynebiad hwn, oherwydd byddai hyd yn oed llai o nawdd ac felly byddai talu am barcio rhwng Tachwedd a Mawrth yn lleihau'r gofyniad i gynyddu taliadau yn ystod yr Haf i dalu am golli incwm y gellid ei gynhyrchu. |
| **34** | Gwrthwynebu i godi tâl ym Meysydd Parcio Cei Newydd drwy gydol y flwyddyn ar y sail y bydd yn effeithio ar ddigwyddiad tân gwyllt Cei Newydd a digwyddiadau cymunedol eraill. |
| | Bydd y cyfnod codi tâl arfaethedig o 8am – 6pm yn parhau i ddarparu parcio am ddim yn y maes parcio yn ystod digwyddiadau gyda'r nos fel Tân Gwyllt Cei Newydd. Yn fwy cyffredinol, ystyrir y bydd y gostyngiad arfaethedig i'r oriau codi tâl o 8am –10pm i 8am – 6pm yn darparu cymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn i unrhyw ddigwyddiadau gyda'r nos sy'n digwydd ac yn cefnogi'r economi yn ystod y nos. |
| **35** | Gwrthwynebu i newid y cyfnod o godi tâl ym Meysydd Parcio Cei Newydd o 8am – 10pm i 8am – 6pm ar y sail y bydd mwy o risg o wersylla dros nos. |
| | Mae'r rhan fwyaf o Feysydd Parcio'r Cyngor eisoes yn gweithredu cyfnod codi tâl o 8am – 6pm ac ni ystyrir bod hyn yn arwain at risg uwch neu achosion o wersylla dros nos nad yn y meysydd parcio tymhorol hynny sy'n gweithredu cyfnod codi tâl o 8am – 10pm. Yn wir, mae'r maes parcio lle bu'r her fwyaf yn ymwneud â gwersylla dros nos wedi bod mewn maes parcio lle mae taliadau'n berthnasol ar hyn o bryd tan 10pm. Bydd meysydd parcio yn parhau i gael eu monitro ar gyfer digwyddiadau o wersylla dros nos waeth beth fo'u horiau codi tâl a lle y cymerir camau priodol. |
| **36** | Gwrthwynebu ar y sail y byddai codi tâl ym Maes Parcio Heol yr Eglwys yng Nghei Newydd yn dadleoli cerbydau yn ystod cyfnod y gaeaf ymlaen i Heol yr Eglwys. |
| | Ar hyn o bryd mae parcio heb gyfyngiad drwy gydol y flwyddyn ar rannau o Heol yr Eglwys. Os oes pryder bod parcio ar Heol yr Eglwys yn anaddas yna bydd angen ystyried cyfyngu ar barcio yn y lleoliad hwn drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn ar y sail y byddai unrhyw bryderon diogelwch ar y ffyrdd sy'n ymwneud â cherbydau parcio yn y lleoliad hwn o fis Tachwedd i fis Chwefror yn cael eu gwaethygu yng nghyfnodau prysur yr haf pan fydd nifer y traffig yn sylweddol uwch. |
| **37** | Gwrthwynebu i Bendre yn newid i Faes Parcio Arhosiad Byr ar y sail eu bod am i'r maes parcio gynnig parcio arhosiad byr a pharcio i ddeiliaid Trwydded i warantu mannau parcio iddynt gynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â busnes ac er hwylustod yn ogystal â darparu rhywfaint o le parcio arhosiad byr . |
| | Ystyrir nad oes digon o gapasiti gyda Maes Parcio Pendre i ddarparu ar gyfer parcio i ddeiliaid trwyddedau ac opsiynau parcio arhosiad byr, gyda dim ond 23 o lefydd ar gael, ac felly y penderfyniad yw a ddylid cadw Pendre fel maes parcio trwydded yn unig, neu gyflwyno opsiynau parcio arhosiad byr – gellid prynu tocynnau tymor a fyddai'n caniatâi i berchnogion busnes barcio ym meysydd parcio Mwldan, Baddondy a Chae'r Ffair am gost o £295 y flwyddyn fel opsiynau amgen ar gyfer parcio yng nghyffiniau Pendre. |
| **38** | Gwrthwynebu i ymestyn Maes Parcio Maesyrafon gan y byddai'n cael effaith niweidiol ar Farchnad Ffermwyr Aberystwyth. |

| | |
|---|---|
| | Mae swyddogion yn ceisio nodi lleoliad yng nghanol y dref a fyddai'n fwy priodol ac yn cefnogi nifer yr ymwelwyr i'r Farchnad ac i'r dref yn gyffredinol. Os nad yw'n bosibl nodi lleoliad addas yng nghanol y dref, bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal i nodi trefniant addas naill ai ym Maes Parcio Maesyrafon neu mewn maes parcio cyfagos. |
| **39** | Gwrthwynebu i Faes Parcio Rhes Gloster / Llew Coch yn newid i faes parcio Tocyn Tymor yn unig ar sail yr effaith ar gwsmeriaid ac o ganlyniad ar y Red Lion Inn. |
| | Derbynnir bod parcio cyfyngedig ar y stryd a / neu barcio oddi ar y stryd ar gael yn y cyffiniau, ac felly argymhellir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a Chabinet Cyngor Sir Ceredigion y dylai'r maes parcio aros fel maes parcio talu ac arddangos arhosiad byr, yn y ffioedd a nodir ar gyfer meysydd parcio eraill yn Aberteifi. Gall trigolion sy'n dymuno defnyddio'r maes parcio yn flynyddol prynu tocynnau tymor. |
| **40** | Gwrthwynebu i newid Rhes Gloster / Llew Coch yn faes parcio Tocyn Tymor yn unig ar y sail bod risg o lifogydd a bod perygl o ddifrod i gerbydau. |
| | Er y derbynnir bod llifogydd weithiau'n effeithio ar faes parcio Rhes Gloster / Llew Coch, mae hyn fel arfer ond yn digwydd pan fydd tywydd eithafol yn effeithio ar y llanw. Argymhellir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a Chabinet Cyngor Sir Ceredigion y dylai'r maes parcio aros fel maes parcio talu ac arddangos arhosiad byr, yn y ffioedd a nodir ar gyfer meysydd parcio eraill yn Aberteifi. |
| **41** | Ar y sail nad yw derbyn Bathodyn Glas yn golygu na all deiliaid Bathodyn Glas dalu. |
| | Derbynnir nad yw derbyn Bathodyn Glas yn golygu nad yw deiliaid y Bathodyn Glas yn gallu talu, fodd bynnag, cydnabyddir y gall y rhai sy'n gymwys i gael Bathodyn Glas wynebu heriau ychwanegol wrth gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau. Gwnaed y diwygiad hwn i'r cynigion gwreiddiol ar gais y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'i gefnogi gan Gabinet Cyngor Sir Ceredigion. |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Gorchymyn Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Sir Ceredigion 2025 | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Rheolwr Gwasanaeth |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Rhodri Llwyd | Barry Rees |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Bwriedir diwygio'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor i safoni a symleiddio trefniadau ar gyfer cwsmeriaid. | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM | |
| Cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor. | |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** | |
| Mae cynigion drafft wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Cabinet. Mae'r cynigion hefyd wedi bod yn destun y broses ymgynghori statudol sy'n gysylltiedig â gweithredu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig sydd wedi cynnwys ymgynghoriad ffurfiol a chyhoeddus. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y cynigion yn destun ystyriaeth bellach gan y pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus cyn eu hystyried i'w gweithredu gan y Cabinet. | |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| Rhif y Fersiwn | Awdur | Cam yn y broses benderfynu<br>AWGRYM | Dyddiad yr Ystyriwyd | Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed<br>AWGRYM |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Rhodri Llwyd | Cyn yr ymgynghoriad | 05/08/2024 | Amh |
| 2.0 | Nicola Parry / Katy Spain | Ar ôl yr ymgynghoriad | 30/12/2024 | Diwygiedig i adlewyrchu newidiadau i gynigion yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ac ymatebion i'r ymgynghoriad lle bo hynny'n berthnasol |
| | | | | |
| | | | | |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | Mae'r cynnig yn ceisio:<br>• Safoni'r cynnig Parcio Oddi ar y Stryd, gan wneud y cynnig, a gwybodaeth yn ymwneud ag ef, yn haws i'w gyfathrebu i gwsmeriaid, gan gynnwys ymwelwyr, trigolion a chymudwyr i'r trefi lle mae meysydd parcio wedi'u lleoli.<br>• Newid strwythur y ffioedd i annog cwsmeriaid i barcio am fwy o amser, gan gynyddu eu hamser preswylio mewn trefi.<br>• Lleihau cost tocynnau tymor, a fydd yn arbed arian i drigolion a chymudwyr sy'n defnyddio'r meysydd parcio yn rheolaidd.<br>• Gwneud y tocynnau tymor car / fan / beic modur yn drosglwyddadwy rhwng meysydd parcio, a fydd yn annog cwsmeriaid i ymweld â threfi eraill gan y byddant yn gallu parcio heb gost bellach.<br>• Cynyddu nifer y lleoedd parcio talu ac arddangos sydd ar gael (estyniad i Faes Parcio Maesyrafon) a chynyddu trosiant lleoedd (newid dynodiad Pendre o ddeiliad trwydded yn unig i faes parcio arhosiad byr).<br>• Safoni taliadau, diwrnodau ac amseroedd ar draws pob maes parcio. Bydd newid oriau codi tâl mewn meysydd parcio tymhorol rhwng 8am a 10pm Mawrth – Hydref, i |

| | |
|---|---|
| | 8am – 6pm gydol y flwyddyn, bydd hyn yn cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r economi gyda'r nos, yn ogystal â gweithgareddau hamdden, gan na fydd taliadau bellach yn berthnasol rhwng 6pm a 10pm yn y meysydd parcio hynny. |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | Ar hyn o bryd dim ond cerbydau sy'n arddangos Bathodyn Glas **ac** sydd wedi'u heithrio o dreth cerbyd yn benodol oherwydd eithriad anabledd sydd wedi'u heithrio rhag talu'r tâl parcio. O dan y cynigion bydd pob cerbyd sy'n cael ei yrru gan neu'n cludo deiliad Bathodyn Glas ar adeg parcio wedi'i eithrio rhag taliadau. Bydd newid y trefniadau codi tâl presennol fel y bydd gan bob deiliad Bathodyn Glas yr hawl i barcio am ddim yn golygu y bydd y trefniadau ar gyfer pob deiliad Bathodyn Glas yr un fath, waeth beth fo statws treth eu cerbyd. |
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | Amh |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Mae codi tâl am barcio yn rhan o'r gyfres ehangach o fesurau sy'n ceisio cymell defnydd ceir preifat ac annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio (cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus) ar gyfer y daith gyfan neu rannau o deithiau, yn enwedig ar gyfer y teithiau byrrach hynny o fewn trefi a'r cyffiniau. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| --- |
| **Cadarnhaol**<br>Bydd newidiadau i'r cynnig tocynnau tymor sy'n golygu eu bod yn drosglwyddadwy rhwng meysydd parcio arhosiad hir yn darparu cyfleoedd parcio heb unrhyw gost bellach ym meysydd parcio Talu ac Arddangos Arhosiad Hir eraill y Cyngor. Bydd y cynnig hwn yn gweld y gost o gael mynediad i gyflogaeth neu addysg yn gostwng i'r cwsmeriaid hynny yn y Band Arfordirol arfaethedig, o'i gymharu â'r costau cyfredol. Mae hyn hefyd yn golygu y gall rhywun sy'n prynu tocyn tymor sy'n byw mewn un dref ac sy'n gweithio mewn un arall ddefnyddio'r meysydd parcio arhosiad hir yn y ddau leoliad heb gost ychwanegol (cyn hynny byddai wedi darparu parcio mewn un maes parcio yn unig).<br><br>Yn dilyn yr adolygiad o ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd y cynnig, yn achos tocynnau tymor 9 a 12 mis lle mae'r opsiwn i dalu drwy ddebyd uniongyrchol ar gael, hefyd yn dileu'r gofyniad i dalu ymlaen llaw am 3 mis gyntaf y tocyn tymor, gan leihau'r gost gychwynnol o brynu tocyn tymor 9 neu 12 mis.<br><br>Bydd newid oriau codi tâl mewn meysydd parcio tymhorol rhwng 8am a 10pm Mawrth – Hydref, i 8am – 6pm gydol y flwyddyn yn cefnogi gweithgareddau gyda'r nos yn ogystal â gweithgareddau hamdden drwy gydol y flwyddyn, gan na fydd taliadau bellach yn berthnasol rhwng 6pm a 10pm yn y meysydd parcio hynny. Bydd hefyd yn caniatáu i breswylwyr barcio am ddim o 6pm i 10pm y tu allan i oriau gwaith traddodiadol.<br><br>Mae seilwaith i hwyluso gwefru cerbydau trydan (EV) yn cael ei weithredu fel rhan o'r cynigion ehangach, ac yn benodol fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag elfen y cynnig sy'n ymwneud ag ymestyn Maes Parcio Maesyrafon.<br><br>Dylai newid strwythur ffioedd talu ac arddangos i annog cwsmeriaid i barcio am fwy o amser, gefnogi busnesau manwerthu a gwasanaethau eraill gan gynyddu amser y cwsmeriaid yn y trefi.<br><br>Er y byddai'r cynigion yn arwain at gynnydd yn y taliadau parcio talu ac arddangos yn y rhan fwyaf o achosion, mae taliadau parcio yn rhan o'r gyfres ehangach o fesurau sy'n ceisio atal defnydd o geir preifat ac annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio (cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus) ar gyfer y daith gyfan neu rannau o deithiau, yn enwedig ar gyfer y teithiau byrrach hynny o fewn trefi a'r cyffiniau cyfagos. Mae hyn yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon a thuag at gymdeithas carbon isel. |

Bydd newid y defnydd o Bendre i faes parcio arhosiad byr yn darparu trosiant o leoedd parcio sy'n agos at y Stryd Fawr yn Aberteifi, a ddylai gefnogi busnesau manwerthu a busnesau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Bydd ymestyn Maes Parcio Maesyrafon yn Aberystwyth yn cynyddu nifer y lleoedd parcio sydd ar gael ac felly'r capasiti parcio cyffredinol yn Aberystwyth.

**Negyddol**

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio meysydd parcio Talu ac Arddangos a ddewisodd beidio â phrynu Tocyn Tymor neu, y cwsmeriaid sy'n ymweld â meysydd parcio mor anaml na fyddai prynu Tocyn Tymor yn fanteisiol iddynt, bydd y rhain yn gweld cynnydd yng nghost parcio yn y rhan fwyaf o achosion. Gall hyn eu hatal rhag dod i ganol trefi neu olygu bod ganddynt lai o arian i'w wario. Fodd bynnag, mae parcio cyfyngedig am ddim a/neu barcio ar y stryd heb gyfyngiad ar gael ar sail y cyntaf i'r felin ym mhob lleoliad lle mae meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor yn weithredol. Mae defnyddio meysydd parcio yn benderfyniad dewisol, a gall cwsmeriaid hefyd ddewis defnyddio darparwyr parcio preifat eraill lle maent ar gael os ydynt o'r farn bod eu cynnig yn diwallu eu hanghenion yn well.

Os bydd costau parcio yn arwain at lai o ymwelwyr yng nghanol trefi, gallai effeithio ar hyfywedd busnesau ac o ganlyniad i gyfleoedd cyflogaeth.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon?**

Bydd tocynnau tymor yn gyfnewidiol, ac mae'r gofyniad i dalu ymlaen llaw am 3 mis cychwynnol tocynnau tymor 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol yn cael ei ddileu ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae mwy o ddarpariaeth gwefru cerbydau trydan wedi’i gynnwys yn y cynigion ar gyfer Maes Parcio Maesyrafon.

Mae astudiaethau cenedlaethol wedi dangos bod argaeledd cyffredinol mannau parcio, ac i ba raddau y mae'r maes parcio yn debygol o fod yn brysur, yn aml yn cael eu hystyried yn ffactorau pwysicach wrth ystyried a ddylid ymweld â'r gost o barcio.

**Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?**

Hyrwyddo Tocynnau Tymor yn weithredol gan dynnu sylw at arbedion sylweddol sydd ar gael hyd yn oed i’r rhai sy’n ymweld â meysydd parcio yn gymharol anaml.

Mae’r cynigion gwreiddiol wedi’u diwygio i eithrio pob Deiliad Bathodyn Glas rhag taliadau.

Bydd monitro a gorfodi llefydd cyfyngedig am ddim yn cael eu hadolygu gyda’r bwriad o sicrhau bod trosiant llefydd mor effeithlon â phosibl.

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| **Cadarnhaol**<br><br>Cynigir gwelliannau bioamrywiaeth fel rhan o elfen ymestyn Maes Parcio Maesyrafon o'r cynnig, a fydd yn cynnwys coed a fydd yn cael eu plannu yn ogystal â gwelliannau eraill.<br><br>Mae codi tâl am barcio yn rhan o gyfres ehangach o fesurau sy'n ceisio atal defnydd ceir preifat ac annod defnyddio dulliau teithio amgen, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, a allai gyfrannu at leihau allyriadau carbon y sir.<br><br>Mae seilwaith i hwyluso gwefru cerbydau trydan yn cael ei weithredu fel rhan o gynigion ehangach, ac yn benodol fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag elfen y cynnig sy'n ymwneud ag ymestyn Maes Parcio Maesyrafon.<br><br>**Negyddol**<br><br>Gall taliadau parcio uwch arwain at yrwyr yn gyrru o gwmpas canol trefi nes eu bod yn dod o hyd i gyfleoedd parcio am ddim i osgoi talu taliadau parcio, gall hyn felly gynyddu allyriadau yng nghanol trefi. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae dyluniadau o'r cynigion yn cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth a ddatblygwyd gan Ecolegydd Priffyrdd y Cyngor.<br><br>Mae seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yn rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â Maes Parcio Maesyrafon. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Bydd monitro a gorfodi llefydd cyfyngedig am ddim yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o sicrhau bod trosiant llefydd mor effeithlon â phosibl. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
|---|
| **Cadarnhaol**<br><br>Bydd y cynnig yn ceisio cynyddu argaeledd a throsiant parcio oddi ar y stryd yn agos at hamdden, addysg a gwasanaethau.<br><br>Bydd tocynnau tymor trosglwyddadwy am bris gostyngol, a heb yr angen am 3 mis o daliad ymlaen llaw am docynnau tymor 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol, yn cefnogi mynediad cwsmeriaid i barcio ym meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor mewn lleoliadau eraill yn ogystal ag yn agos at eu cartref neu waith, a fyddai'n cynnwys at ddibenion hamdden, heb unrhyw gost ychwanegol.<br><br>Mae codi tâl am barcio yn rhan o gyfres ehangach o fesurau sy'n ceisio cymell defnydd ceir preifat ac annog defnyddio dulliau amgen ar gyfer teithiau byr i drefi ac o fewn trefi. Gall hyn gynyddu'r defnydd o gerdded a beicio, sydd yn ei dro yn cefnogi ffyrdd iach o fyd/dewisiadau, a gall wella iechyd corfforol a meddyliol. Gall gostyngiadau yn y defnydd o geir yng nghanol trefi hefyd ostwng lefelau llygredd yng nghanol trefi a all gyfrannu at welliannau mewn ansawdd aer ac iechyd.<br><br>**Negyddol**<br><br>Gall taliadau uwch atal rhai cwsmeriaid rhag defnyddio Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor i gael mynediad at wasanaethau hamdden, addysg a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, cynigir tocynnau tymor cost gostyngol sylweddol fel rhan o'r strwythur codi tâl cyffredinol a bydd parcio am ddim â chyfyngiad amser a dim cyfyngiad ar y stryd yn parhau ar sail y cyntaf i'r felin. Gall cwsmeriaid hefyd ddewis defnyddio cyfleoedd parcio eraill sydd ar gael gan ddarparwyr preifat os ydynt o'r farn y gallai'r rhain ddiwallu eu hanghenion yn well. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Bydd y cynnig yn ceisio gwella mynediad i ardaloedd / cyfleusterau hamdden tra hefyd yn ceisio annog dulliau teithio mwy cynaliadwy, megis cerdded a beicio ar gyfer teithiau byr i drefi ac o fewn trefi. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Hyrwyddo Tocynnau Tymor yn weithredol gan amlygu'r arbedion cost sylweddol sydd ar gael, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad am 3 mis o daliad ymlaen llaw am docynnau 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.**

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl 18-50** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl hŷn 50+** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Amh | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |
| **Amhariad ar y golwg** | Dim/Fawr Ddim |
| **Anabledd Dysgu** | Dim/Fawr Ddim |
| **Salwch hirdymor** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iechyd Meddwl** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Arall** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| O dan y cynigion bydd pob deiliad Bathodyn Glas yn cael parcio am ddim ym meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.<br><br>Bydd newid Maes Parcio Pendre yn Aberteifi i faes parcio arhosiad byr yn rhoi mynediad i fannau parcio oddi ar y stryd sy'n darparu mynediad gwastadol i Stryd Fawr Aberteifi. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Ar hyn o bryd dim ond i'r deiliaid Bathodyn Glas sy'n bodloni'r gofyniad penodol o barcio mewn cerbyd sydd wedi'i eithrio rhag ffi Trwydded y Gronfa Ffyrdd oherwydd meini prawf penodol sy'n ymwneud ag anabledd. Bydd y cynnig yn golygu y bydd consesiynau yn cael eu darparu i holl ddeiliaid y Bathodyn Glas, a bydd gwneud trefniadau yn fwy teg a bydd yn haws i gyfleu hyn i gwsmeriaid.<br><br>Ar hyn o bryd nid yw Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor yn Aberteifi yn darparu cyfleoedd parcio gyda mynediad gwastad i'r Stryd Fawr ac mae cynnig Pendre yn gyfle i gefnogi hyn. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Amh | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Menywod Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Anneuaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Amh |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl Ddeurywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion hoyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Heterorywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Amh | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl sy'n briod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Amh |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Amh |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mamolaeth** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** | |
| Amh | |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwyn** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Amh |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Amh |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cristion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Hindŵaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dyneiddiwr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iddewig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mwslim** | Dim/Fawr Ddim |
| **Sikh** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Amh | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Amh | |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Amh | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Amh | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Amh | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |

**Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**

**Cadarnhaol**

Bydd y gostyngiad yng nghost y tocynnau tymor yn golygu y bydd preswylwyr a chymudwyr yn gallu prynu parcio ar gyfradd rhatach na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd tocyn tymor 12 mis o dan y cynigion ar gyfer maes parcio ym mand y Arfordir yn costio £295 y flwyddyn o'i gymharu â £480 y flwyddyn, a bydd modd ei drosglwyddo rhwng meysydd parcio arhosiad hir (yn flaenorol byddai hyn wedi'i ddynodi'n 1 maes parcio). Mae hyn yn golygu gostyngiad o 38.5% ar gost bresennol tocyn tymor ochr yn ochr â'r manteision ychwanegol y gellir eu trosglwyddo rhwng Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

Gellir talu am docynnau tymor 9 a 12 mis drwy ddebyd uniongyrchol hefyd, ac yn dilyn yr adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, byddant nawr ar gael heb daliad 3 mis ymlaen llaw, sy'n golygu y gellir ymestyn y taliad dros gyfnod y tocyn tymor. Bydd pob deiliad bathodyn glas o dan y cynigion hyn bellach wedi'u heithrio rhag taliadau.

**Negyddol**

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio meysydd parcio Talu ac Arddangos a ddewisodd i beidio â phrynu Tocyn Tymor neu, y rhai sy'n ymweld â meysydd parcio mor anaml na fyddai prynu Tocyn Tymor yn fanteisiol iddynt, bydd yr unigolion hyn yn gweld cynnydd yng nghost parcio yn y rhan fwyaf o achosion. Gall hyn gael mwy o effaith ar y rhai sydd ar incwm is sy'n llai abl i allu ymdopi â chynnydd mewn costau nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae parcio cyfyngedig am ddim a / neu barcio ar y stryd heb gyfyngiad ar sail y cyntaf i'r felin ym mhob lleoliad lle mae meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor yn weithredol. Mae defnyddio meysydd parcio yn benderfyniad dewisol, a gall cwsmeriaid hefyd ddewis defnyddio darparwyr parcio preifat eraill lle maent ar gael os ydynt o'r farn bod eu cynnig yn diwallu eu hanghenion yn well.

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** |
| Gostyngiad o 38.5% yng nghost tocynnau tymor o'i gymharu â'r gost bresennol i'r rhai yn y Band Arfordirol, dileu taliad 3 mis ymlaen llaw ar gyfer tocynnau 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol, a'r gallu i drosglwyddo rhwng meysydd parcio arhosiad hir.<br><br>Mae cryn dipyn o barcio am ddim o hyd heb gyfyngiadau, ar y stryd ac oddi ar y stryd ar gael mewn trefi. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Hyrwyddo Tocynnau Tymor yn weithredol gan dynnu sylw at arbedion sylweddol sydd ar gael hyd yn oed i'r rhai sy'n ymweld â meysydd parcio yn gymharol anaml, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad am daliad 3 mis ymlaen llaw ar gyfer tocynnau 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol.<br><br>Bydd monitro a gorfodi llefydd cyfyngedig am ddim yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o sicrhau bod trosiant llefydd mor effeithlon â phosibl.<br><br>Mae'r cynigion gwreiddiol eisoes wedi'u diwygio i eithrio pob deiliad bathodyn glas rhag taliadau. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Nid ystyrir y byddai'r cynigion yn effeithio ar y Nod Llesiant hwn. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Amh |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Amh |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.**

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a’r iaith Gymraeg

| **Ydy’r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** |
|---|
| **Cadarnhaol**<br><br>Bydd y trosiant cynyddol /  argaeledd parcio yn agos at gyfleusterau, gan gynnwys mewn lleoliadau arfordirol, yn ogystal â thocynnau tymor rhatach, y gellir eu trosglwyddo rhwng meysydd parcio, yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy’n dymuno mynychu digwyddiadau diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon ac asedau hamdden.<br><br>Bydd pob deiliad Bathodyn Glas yn cael parcio am ddim a fydd yn hwyluso cyfranogiad mewn gweithgareddau gan eu bod yn gallu parcio heb orfod talu a fydd yn hwyluso eu mynediad i’r cyrchfan arfaethedig o’r lleoliad y maent wedi parcio.<br><br>**Negyddol**<br><br>Gall taliadau parcio uwch atal rhai cwsmeriaid rhag defnyddio Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor wrth fynychu digwyddiadau diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon ac asedau hamdden. Fodd bynnag, mae parcio cyfyngedig am ddim a pharcio ar y stryd heb gyfyngiad ar gael ar gyfer sesiynau parcio byrrach a chyfleoedd parcio eraill sydd ar gael gan ddarparwyr preifat. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn  hon?** |
| Mae’r cynnig parcio diwygiedig yn ceisio annog cwsmeriaid i dreulio mwy o amser mewn trefi i gefnogi mynediad at ddiwylliant, treftadaeth, chwaraeon ac asedau hamdden.<br><br>Bydd pob deiliad bathodyn glas wedi’u heithrio rhag taliadau o dan y cynigion arfaethedig. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at yr egwyddor hon?** |
| Hyrwyddo Tocynnau Tymor yn weithredol gan dynnu sylw at yr arbedion sylweddol sydd ar gael hyd yn oed i’r rhai sy’n ymweld â meysydd parcio yn gymharol anaml, ochr yn ochr â dileu’r gofyniad am daliad 3 mis ymlaen llaw ar gyfer tocynnau 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol.<br><br>Bydd monitro a gorfodi llefydd cyfyngedig am ddim yn cael eu hadolygu gyda’r bwriad o sicrhau bod trosiant llefydd mor effeithlon â phosibl. |

| | |
|---|---|
| **Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?**<br>Cliciwch yma am wybodaeth | |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Dim/Fawr Ddim |
| **Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?** | |
| Nid oes gwahaniaeth rhwng yr ieithoedd o fewn y cynnig hwn, ac nid yw'n cael effaith chwaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd pob arwydd a dogfennaeth gysylltiedig yn ddwyieithog. | |
| **Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?** | |
| Bydd pob arwydd a dogfennaeth gysylltiedig yn gwbl ddwyieithog. | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** AWGRYM |
| **Cadarnhaol**<br><br>Mae codi tâl am barcio yn rhan o gyfres ehangach o fesurau sy'n cael effaith gadarnhaol ar Gymru sy'n Gyfrifol ar lefel fyd-eang, drwy annog y cyhoedd i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, darparu mwy o barcio yn agos at ganol y dref, a lleihau nifer y bobl sy'n gyrru o gwmpas yn chwilio am fannau parcio yng nghanol trefi. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Amh |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Amh |

## Cryfhau’r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| **Beth fyddwch chi'n ei wneud?** | **Pryd?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Yn dilyn ystyriaeth gan Cabinet ar y cynigion ddrafft, diwygiwyd y cynigion i wneud holl Ddeiliaid Bathodyn Glas yn eithriedig i’r taliadau. | Medi 2024 | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Wedi’i gwblhau – Diwygiwyd y cynigion a’u rhoi allan i ymgynghori |
| Hyrwyddo Tocynnau Tymor yn weithredol gan amlygu'r arbedion cost sylweddol sydd ar gael hyd yn oed i'r rhai sy'n ymweld â meysydd parcio yn gymharol anaml, ochr yn ochr â dileu’r gofyniad am daliad 3 mis ymlaen llaw ar gyfer tocynnau tymor 9 a 12 mis y telir amdanynt drwy ddebyd uniongyrchol. | Ar ôl i Cabinet benderfynu a ddylid gweithredu’r cynigion | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol gyda chefnogaeth Cyfathrebu Corfforaethol | Bydd hyn yn cychwyn yn amodol ar benderfyniad y Cabinet |
| Bydd gorfodi llefydd parcio am ddim â chyfyngiad amser yn cael eu hadolygu gyda golwg ar sicrhau bod trosiant lleoedd mor effeithlon â phosibl. | Ar ôl i Cabinet benderfynu a ddylid gweithredu’r cynigion | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Yn dilyn cyfnod i sefydlu pa effaith, os o gwbl, ar y stryd sydd wedi deillio o'r newidiadau mewn meysydd parcio. |
| | | | |

| |
|---|
| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae’n rhaid newid neu ddiwygio’r cynnig.)* |
| Gweler uchod. |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Pe bai’r cynigion yn cael eu gweithredu, bydd y rhain yn cael eu monitro a’u gwerthuso gan ddefnyddio data meintiol o’r systemau presennol (peiriannau talu ac arddangos a systemau monitro tocynnau tymor) yn ogystal ag unrhyw adborth gan gwsmeriaid sy’n cael ei ystyried a’i werthuso. |

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | Mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn fodd o sicrhau bod parcio ar gael, gan gynnwys trosiant llefydd, mewn trefi lle mae meysydd parcio talu ac arddangos oddi ar y stryd wedi'u lleoli.<br><br>Mae incwm sy'n deillio o'r arian hyn yn cyfrannu at gyllideb gyffredinol y Cyngor ac yn cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | Ni ystyrir bod cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu darpariaeth parcio oddi ar y stryd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored i ddulliau gan sefydliadau eraill os ydynt yn dymuno trafod cymryd rheolaeth dros unrhyw gyfleusterau. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | Mae'r cynnig wedi bod drwy'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet perthnasol i'w hystyried cyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ac mae'n destun ystyriaeth Craffu pellach yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Yna bydd y cynnig yn cael ei ystyried yn derfynol gan y Cabinet, cyn y gellir ei weithredu. |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | Nid yw parcio oddi ar y stryd yn wasanaeth ataliol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | Ni ystyrir ei bod yn bosibl cynnwys integreiddio'r gwasanaeth â gweithgareddau a gyflawnir gan randdeiliaid a / neu bartneriaid eraill. |

## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o’r risg** | **Effaith** (difrifoldeb) | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrifwyd bod incwm o gynigion nad ydynt yn cael eu cyflawni yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni cyllideb gytbwys | 3 | 2 | 6 |
| | | | |
| | | | |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | - | - | - |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Rhodri Llwyd |  | 14/01/25 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | Barry Rees |  | 09/01/25 |
| **Deiliad y Portffolio** | Cyng. Keith Henson |  | 15/01/25 |